Canllawiau pellach ar Wybodaeth am y Gadwyn Fwyd (FCI) i geidwaid gwartheg, defaid a geifr yng Nghymru

O 1 Ionawr 2010, rhaid i geidwaid da byw ddarparu Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd (FCI) ar gyfer gwartheg, defaid a geifr wrth eu hanfon i'w lladd, boed hynny'n uniongyrchol i ladd-dy neu drwy farchnad.

Ni fydd modd gwerthu cig o wartheg, defaid a geifr i'w fwyta gan bobl os nad yw FCI wedi'i ddarparu ar gyfer yr anifeiliaid.

Yng Nghymru, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cynhyrchu taflen wybodaeth ar gyfer ffermwyr sy'n cyflwyno cefndir FCI, gan nodi pa wybodaeth sy'n rhaid ei darparu fel FCI. Mae'r daflen hefyd yn cynghori ceidwaid da byw i siarad gyda'u gweithredwyr lladd-dai a/neu farchnadoedd da byw i drafod eu gofynion o ran darparu FCI. Gallwch weld copi o'r daflen drwy ddilyn y ddolen hon: food.gov.uk/multimedia/pdfs/publication/fcicattlesheepgoats.pdf

Er bod y daflen yn nodi'r wybodaeth elfennol sy'n rhaid i weithredwyr lladd-dai ei derbyn fel FCI, gweithredwyr y lladd-dai piau'r penderfyniad terfynol o ran pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn gallu derbyn anifeiliaid i'w systemau. Yn yr un modd, bydd gweithredwyr lladd-dai yn penderfynu sut y dylid darparu FCI e.e. dogfennau'r cwmni, ffurflen AML1 neu ddogfennau enghreifftiol.

Dylech wneud yn siŵr eich bod yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol am eich anifeiliaid sy'n mynd i'w lladd ar y fformat a nodir gan bob cwsmer, gan gynnwys yr anifeiliaid a fasnachir drwy'r marchnadoedd da byw.

Mae'n bosibl darparu FCI wrth gyflwyno'r anifeiliaid yn y lladd-dy neu'r farchnad – ond mae'n bosibl y bydd rhai gweithredwyr lladd-dai am dderbyn FCI cyn i'r anifeiliaid gyrraedd. Fodd bynnag, os oes gennych wybodaeth benodol a allai aflonyddu neu amharu'n niweidiol ar weithrediadau lladd e.e. gwybodaeth am iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid a allai olygu bod yn rhaid i'r anifeiliaid gael eu lladd ar derfyn dydd, rhaid i chi gyflwyno'r wybodaeth hon i weithredwr y lladd-dy cyn anfon yr anifeiliaid yno.

Cyngor

Dylech ddarllen y cyngor ychwanegol hwn ochr yn ochr â'r daflen a gyhoeddwyd eisoes. Mae'r cyngor a gynigiwn yma yn dweud mwy wrthych am bob un o'r datganiadau (**mewn 'bold'**) sydd wedi'u nodi yn y datganiad sy'n rhaid i chi ei ddarparu ar gyfer yr holl wartheg, defaid a geifr a anfonwch i'w lladd.

*Nid yw'r daliad o dan unrhyw gyfyngiadau symud ar gyfer Twbercwlosis gwartheg (TB)**

neu

*Mae'r daliad o dan gyfyngiad symud ar gyfer Twbercwlosis gwartheg (TB)**

**rhaid dileu un*

- Dim ond ar gyfer gwartheg y mae'n rhaid cynnwys yr wybodaeth hon.
- Rhaid cyflwyno trwyddedau symud penodol gydag anifeiliaid sydd wedi cael adwaith amhendant neu sydd wedi adweithio i'r prawf TB.

Nid yw gwartheg / defaid a geifr ar y daliad dan unrhyw gyfyngiadau symud ar gyfer unrhyw glefyd anifeiliaid nac am resymau sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd (ac eithrio gwaharddiad ar symud anifeiliaid am 6 diwrnod [13 diwrnod yn yr Alban]).

- Nid oes gofyn cyflwyno gwybodaeth am waharddiadau arferol ar symud anifeiliaid am 6 diwrnod neu 13 diwrnod.

Cydymffurfiwyd â'r cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd ar gyfer yr holl feddyginiaethau milfeddygol a'r triniaethau eraill y mae'r anifeiliaid wedi'u cael tra'r oeddent ar y daliad hwn, a daliadau blaenorol.

- Ni ddylid anfon anifeiliaid i'w lladd er mwyn i'w cig gael ei fwyta gan bobl os ydynt mewn cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd o ganlyniad i feddyginiaethau milfeddygol a roddwyd iddynt.
- Ar gyfer anifeiliaid a brynwyd, rhaid i chi geisio gwybodaeth am gyfnodau cadw meddyginiaethau sydd heb ddod i ben gan y sawl sy'n gwerthu er mwyn eich galluogi i wneud y datganiad hwn.
- Rhaid ystyried pob math o feddyginiaeth, gan gynnwys tiwbiau buwch sych, meddyginiaeth rhyddhau fesul dipyn, chwistrelli gwrth-lyngyr, meddyginiaethau sy'n cael eu harllwys a dips defaid.
- Er gwybodaeth – y cyfnod cadw'n ôl hiraf ar gyfer meddyginiaethau a awdurdodir mewn cig defaid yw 70 diwrnod a 240 diwrnod ar gyfer gwartheg ar hyn o bryd.

FSA/1489/0110

Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid yw'r anifeiliaid yn dioddef o unrhyw glefyd neu gyflwr a allai effeithio ar ddiogelwch y cig a ddaw oddi wrthynt.

- Dylai gweithredwyr lladd-dai ddisgwyl derbyn anifeiliaid iach yn unig, cyn belled ag y gallant farnu hynny. Yn y cyd-destun hwn, mae 'iach' yn golygu bod heb unrhyw arwydd amlwg o unrhyw gyflwr neu glefyd sy'n bresennol ar y corff cyfan.
- Gellir anfon anifail sydd â chyflwr sy'n effeithio ar ran penodol o'r corff nad yw'n effeithio ar statws cyffredinol ei iechyd i'w ladd. Gall amodau sy'n effeithio ar ran penodol o'r corff beri i gig gael ei halogi ac effeithio ar ei ddiogelwch, neu gall arwain at wahardd rhan o'r carcas o'r gadwyn fwyd.

Gwartheg

- Dylech gyflwyno gwybodaeth am unrhyw wartheg sy'n dangos unrhyw arwydd bod ganddynt gyflyrau a allai effeithio ar ddiogelwch cig.

Ŵyn a geifr ifanc

- Rhaid i chi gyflwyno gwybodaeth am unrhyw ŵyn neu eifr ifanc sy'n dangos unrhyw arwydd bod ganddynt gyflyrau a allai effeithio ar ddiogelwch cig.

Defaid llawndwf (mamogiaid a hyrddod/meheryn) a geifr

- Mae cyflyrau sy'n effeithio ar ran penodol o'r corff yn bresennol yn aml ar ddefaid a geifr llawndwf – mae trefniadau archwilio a lladd yn ystyried hyn fel mater o drefn er mwyn amddiffyn diogelwch cig. Cyn belled ag y bo'r holl anifeiliaid yn iach, cewch gyflwyno'r datganiad hwn ar gyfer sypiau o ddefaid a geifr llawndwf. Nid oes yn rhaid i chi archwilio anifeiliaid unigol ond os gwyddoch am unrhyw gyflyrau sy'n bresennol ar ran penodol o anifail, dylech gyflwyno'r wybodaeth hon.

FCI Ychwanegol

- Pan fydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth am anifeiliaid sy'n dangos arwyddion eu bod yn dioddef o gyflyrau a allai effeithio ar ddiogelwch cig, dylech nodi'r wybodaeth ar y ddogfen FCI ychwanegol enghreifftiol, sydd ar gael drwy: food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/meatregsguid/ neu, yn achos defaid yng Nghymru a Lloegr, defnyddiwch y ffurflen AML1 newydd.
- Os oes unrhyw amheuaeth ar eich rhan pa un a ddylid darparu gwybodaeth am gyflwr ai peidio, neu am ba mor addas yw anifeiliaid i'w lladd i'w bwyta gan bobl, dylech geisio cyngor eich milfeddyg preifat neu weithredwr y lladd-dy.
- O dan ddeddfwriaeth lles anifeiliaid, ni ddylid symud anifeiliaid os yw'r drafnidiaeth a ddefnyddir yn debygol o achosi unrhyw ddioddefaint diangen.

Nid yw unrhyw samplau a gymerwyd oddi wrth yr anifeiliaid ar y daliad nac unrhyw samplau eraill wedi dangos bod yr anifeiliaid yn y llwyth hwn wedi bod yn agored i unrhyw glefydau neu gyflyrau a allai effeithio ar ddiogelwch cig, neu unrhyw sylweddau a allai arwain at weddillion yn y cig.

- Dylid nodi canlyniadau unrhyw brofion ar anifeiliaid, bwyd anifeiliaid neu'r amgylchedd sydd wedi dangos presenoldeb organebau ar y daliad y gellir eu trosglwyddo i bobl drwy fwyta cig (e.e. salmonela) neu halogion (e.e. plwm) fel FCI ychwanegol.
- Nid ydym yn gofyn i chi gyflwyno gwybodaeth am ddigwyddiadau hanesyddol nad ydynt bellach yn berthnasol i ddiogelwch cig o'r anifeiliaid yn y llwythi.
- Os oes unrhyw amheuaeth, ceisiwch gyngor eich milfeddyg preifat neu weithredwr y lladd-dy.

ASIANTAETH SAFONAU BWYD CYMRU

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Jayne Griffiths, Ffôn 029 2067 8908
E-bost: jayne.griffiths@foodstandards.gsi.gov.uk
Mae canllawiau ar gael ar wefan yr Asiantaeth hefyd drwy:
food.gov.uk/wales/aboutus_wales/fsawalesw/amaeth/FCIgwarthegdefaidgeifr/